# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

**RHAN 2**

AWDURDOD CYLLID CYMRU

*Cynlluniau corfforaethol, adroddiadau blynyddol, cyfrifon etc.*

**28 Adroddiad blynyddol**

(1) Cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i ACC—

(a) paratoi a chyhoeddi adroddiad ar y modd yr arferwyd ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn honno,

(b) anfon copi o’r adroddiad at Weinidogion Cymru, ac

(c) gosod copi o’r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(2) Rhaid i’r adroddiad gynnwys (yn benodol) asesiad o’r graddau y mae ACC, yn ystod y flwyddyn ariannol, wedi amlygu’r safonau gwasanaeth, y safonau ymddygiad a’r gwerthoedd y mae’r Siarter yn datgan y disgwylir iddo gadw atynt.

(3) Caiff ACC gyhoeddi unrhyw adroddiadau eraill ac unrhyw wybodaeth arall am faterion sy’n berthnasol i’w swyddogaethau ag y bo’n briodol yn ei farn.